

## **Diben y papur hwn yw rhoi ymateb i Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Datgarboneiddio Trafnidiaeth**

### **Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad drafft ac yn diolch i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ddangos i'r Pwyllgor sut y mae'n ystyried materion sy'n ymwneud ag ynni a chapasiti'r grid wrth gynnal fflydoedd cerbydau cwbl drydan yng Nghymru. Dylai ddangos sut y mae'n cynnwys hynny yn rhan o system gynllunio Cymru, a rhoi sicrwydd ynghylch ei chynlluniau ar gyfer cynaliadwyedd wrth reoli'r broses gylchol o gaffael ac ailgylchu batris trydan.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â'r Grid Cenedlaethol a Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu ynghylch yr effeithiau, a byddwn hefyd yn gwneud ymchwil i sut y gall cynhyrchu a storio ynni adnewyddadwy helpu i wneud y grid yn fwy cadarn. Mae ymchwil hefyd yn mynd rhagddi i sut y gall economi Cymru fod ar ei hennill o'r technolegau sy'n dod i'r amlwg a chyfleoedd ar gyfer ailgylchu.

Rhoddir diweddariad ysgrifenedig pan fyddwn wedi cwblhau'r broses ymgynghori a amlinellir yn yr ymateb i Argymhelliad 2 yn hwyrach eleni.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau uniongyrchol ar yr adeg hon.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'i chynlluniau ar gyfer y rhwydwaith seilwaith cerbydau trydan a phryd y mae'n bwriadu cyhoeddi ei strategaeth ar gyfer cerbydau trydan. Ochr yn ochr â gwybodaeth am y seilwaith gwefru, dylai Llywodraeth Cymru hefyd ddangos yn glir sut y bydd yn sicrhau bod gweithredwyr tacsis / cerbydau hurio preifat a gweithredwyr bysiau'n dechrau defnyddio cerbydau trydan erbyn dyddiad targed y Llywodraeth, sef 2028

### **Ymateb: Derbyn**

Mae'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar ffurf ddrafft, ac mae'n cael ei hadolygu gan y Llywodraeth â'r nod o gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn hwyrach eleni.

Rhoddir diweddariad ysgrifenedig mewn perthynas â'r cynlluniau ar gyfer gweithredwyr tacsis/cerbydau hurio preifat a bysiau'n newid i gerbydau trydan er mwyn bodloni'r dyddiad targed, sef 2028, yn hwyrach eleni.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol y tu hwnt i'r hyd a fydd yn cael ei ariannu gan gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am lefel ac effaith ddisgwyliedig ei chymorth ar gyfer awdurdodau lleol wrth ymateb i COVID-19, a hynny er mwyn cymryd 'camau dros dro' i annog teithio llesol diogel ac i annog pobl i beidio â defnyddio ceir preifat. Dylai egluro sut y bydd yn monitro ac yn gwerthuso llwyddiant yn hyn o beth

**Ymateb:** Derbyn

Roedd y llythyr a oedd yn cyd-fynd â'r dyfarniad cyllid i awdurdodau lleol yn nodi bod angen monitro a gwerthuso llwyddiant, ac y gellir defnyddio canran o'r cyllid at y diben hwn. Rhaid hefyd i awdurdodau lleol gyflwyno hawliadau chwarterol yn amlinellu eu cynnydd. Byddwn yn rhoi diweddariad ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar ôl i'r hawliadau Chwarter 2 gael eu cyflwyno ym mis Hydref.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol uniongyrchol.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ar ei chynlluniau a'i chynnydd wrth ddatblygu, ar y cyd â gweddill y DU, fanylebau, safonau a dulliau modelu costau tymor hir ar gyfer defnyddio technoleg cerbydau trydan allyriadau isel yng Nghymru. Hoffai'r Pwyllgor wybod hefyd sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu ei chynlluniau â gweithredwyr trafndiaeth yng Nghymru, er mwyn iddynt fod yn hyderus wrth fuddsoddi mewn technoleg newydd.

**Ymateb:** Derbyn

Rydym yn cytuno y dylai'r DU gyfan ymateb i'r mater hwn. Rhoddir diweddariad ysgrifenedig i'r Pwyllgor yn amlinellu'r cynigion yn y maes hwn erbyn diwedd y flwyddyn.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol uniongyrchol ar yr adeg hon.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'i safbwyntiau diweddaraf ynghylch cost-effeithiolrwydd cymharol ôl-osod bysiau diesel newyddach i'w troi'n gerbydau trydan, yn hytrach na disodli pob fflyd â cherbydau trydan newydd erbyn 2028. Dylai egluro a fydd yn ystyried ôl-osod fel rhan o'i chynlluniau datgarboneiddio yn y dyfodol.

**Ymateb:** Derbyn

Er bod ôl-osod hidlyddion gronynnau ar gerbydau Diesel yn lleihau allyriadau carbon ar yn gwella ansawdd aer lleol, mae nifer o anfanteision y mae angen eu hystyried, gan gynnwys:

- Yr angen am ychwanegion

- Mae'r cerbydau'n defnyddio rhagor o danwydd
- Mae angen rhagor o waith cynnal a chadw
- Mae'r cerbydau y llai dibynadwy

Felly mae costau gweithredu uwch sy'n gwneud yr opsiwn yn llai deniadol i'r diwydiant. Rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant i nodi cyfleoedd.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol y tu hwnt i'r hyd a fydd yn cael ei ariannu gan gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad manwl â'r sector trafndiaeth gymunedol ynghylch ei hagenda a'i thargedau datgarboneiddio, a chyflwyno cynllun clir er mwyn rhoi cefnogaeth briodol a chynaliadwy i'r sector ar gyfer cerbydau, seilwaith a gweithrediadau.

**Ymateb:** Derbyn

Mae gan drafnidiaeth gymunedol ran bwysig i'w chwarae wrth ddarparu gwasanaethau mewn rhannau o Gymru. Bydd Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru yn amlinellu polisiâu clir i gefnogi trafndiaeth gymunedol sy'n sicrhau ei bod yn gynaliadwy ac yn ei helpu i newid i gerbydau carbon isel.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol y tu hwnt i'r hyd a fydd yn cael ei ariannu gan gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae targedau datgarboneiddio yn cael eu hystyried fel rhan o'i hymateb brys i gefnogi gweithredwyr bysiau yn sgil COVID-19, a sut y bydd yn manteisio ar unrhyw fuddion sy'n deillio o'r trefniadau presennol ac yn y dyfodol gyda gweithredwyr a phartneriaid.

**Ymateb:** Derbyn

Rhoddir diweddariad ysgrifenedig i'r Pwyllgor erbyn diwedd y flwyddyn mewn perthynas â'r argymhelliad hwn.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol uniongyrchol ar yr adeg hon.

**Argymhelliad 8.** Pan fydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i egluro sut y bydd ei blaenoriaethau deddfwriaethol ar gyfer trafndiaeth yn cael eu datblygu bellach, yn sgil COVID-19, dylai roi dadansoddiad i'r Pwyllgor o'r goblygiadau i'w hagenda datgarboneiddio, gan gynnwys amlinellu unrhyw gamau nad ydynt yn rhai deddfwriaethol a allai fod yn angenrheidiol

**Ymateb:** Derbyn

Rydym yn datblygu cynigion deddfwriaethol ar gyfer y dyfodol sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer tacsis a bysiau yng ngoleuni COVID-19. Rydym hefyd yn datblygu syniadau ehangach ynghylch sut i roi'r agenda ddatgarboneiddio ar waith. Dylai'r cynigion a'r goblygiadau cysylltiedig fod y gliriach y flwyddyn nesaf, a byddwn yn rhannu'r rhain â'r pwyllgor y pryd hwnnw.

Goblygiadau ariannol: Rhoddir rhagor o fanylion maes o law.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y cynlluniau a'r amserlenni ar gyfer diwygio'r gyfundrefn trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat, ac egluro sut y mae'n gweithio gyda llywodraeth leol a phartneriaid eraill i sicrhau y bydd y sector yn parhau'n hyfyw ar ôl COVID-19, a bod cynlluniau datgarboneiddio ar y trywydd iawn

**Ymateb:** Derbyn

Ar hyn o bryd rydym yn gwneud ymchwil i gymhellion ar gyfer gweithredwyr tacsis a cherbydau hurio preifat i'w hannog i newid i gerbydau dim allyriadau, er mwyn cyrraedd ein targed i sicrhau bod pob tacsî a cherbyd hurio preifat yn gerbyd dim allyriadau erbyn 2028.

Mae nifer o brosiectau eisoes yn mynd rhagddynt, gan gynnwys:

- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ar ran yr awdurdodau eraill yn rhanbarth y De-ddwyrain, wedi cyflwyno cais ar gyfer Cronfa Newid i Gerbydau Allyriadau Isel lawn. Mae'r cais ar gyfer seilwaith gwefru cyflym ar gyfer tacsis (£1.04 miliwn) a chynlluniau grant nad oes rhaid ei ad-dalu ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat.
- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i ddatblygu pecyn o fesurau gydag awdurdodau lleol yn Ninas-ranbarth Caerdydd i gefnogi'r diwydiant tacsis/cherbydau hurio preifat. Bwriedir cyflwyno mesurau o'r fath i rannau eraill o Gymru.
- Dyfarnwyd cyllid gwerth dros £19 miliwn i ategu pecyn o fesurau ansawdd aer i gydymffurfio ar frys â therfynau nitrogen deuocsid Cyfarwyddeb yr UE. Mae'r pecyn o fesurau y cytunwyd arnynt yn cynnwys grant lleihau allyriadau o dacsis (£1.8 miliwn).
- Safleoedd sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd ar gyfer seilwaith gwefru cyflym ledled Cymru.

Oherwydd cost uchel prynu cerbydau dim allyriadau, yn enwedig cerbydau sy'n hygyrch ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, cydnabyddir na fydd llawer yn y diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat yn gallu eu fforddio, hyd yn oed ar ôl ystyried unrhyw grantiau. Felly mae mesurau ychwanegol/amgen yn cael eu hystyried, gan gynnwys cynlluniau 'rhoi cynnig cyn prynu cerbyd', cynlluniau lesio cerbydau a benthyciadau.

Rhoddir diweddariad arall i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2021.

Goblygiadau ariannol: I ddechrau bydd costau ychwanegol yn cael eu talu gan gyllidebau presennol, ond disgwylir y bydd angen rhagor o gyllid i sicrhau bod y cynllun datgarboneiddio yn cadw at yr amserlen. Rhoddir rhagor o fanylion maes o law.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ddweud wrth y Pwyllgor beth sy'n cael ei wneud i gefnogi gyrwyr Moslemaidd yn y sector tacsis / cerbydau hurio preifat i gael benthyciadau addas sy'n cydymffurfio â Chyfraith Sharia ar gyfer cerbydau allyriadau is, boed drwy Fanc Datblygu Cymru neu ddulliau eraill

**Ymateb:** Derbyn

Cydnabyddir bod llawer o yrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat yn Foslemaidd, a bydd unrhyw gymhellion ariannol a gynigir i'r diwydiant i annog gweithredwyr i newid i gerbydau dim allyriadau yn cydymffurfio â Chyfraith Sharia

Rhoddir diweddariad i'r Pwyllgor pan fydd pecyn o gymhellion ariannol wedi cael ei nodi.

Goblygiadau ariannol: I ddechrau bydd costau ychwanegol yn cael eu talu gan gyllidebau presennol, ond disgwylir y bydd angen rhagor o gyllid i sicrhau bod y cynllun datgarboneiddio yn cadw at yr amserlen. Rhoddir rhagor o fanylion maes o law.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â thrafnidiaeth cludo nwyddau fel rhan o'i chynlluniau datgarboneiddio, gan egluro sut y bydd hyn yn cyd-fynd â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru sydd ar y gweill

**Ymateb:** Derbyn

Ein gweledigaeth yw rhwydwaith o wasanaethau cludo nwyddau ledled Cymru sy'n gystadleuol, yn ymatebol ac yn gadarn, ac yn adlewyrchu ein gweledigaeth ar gyfer economi gymdeithasol gyfiawn sy'n ffynnu ac sy'n gyrru gwlad sydd wir yn gynaliadwy ac yn amgylcheddol gyfrifol.

Mae llawer o weithredwyr cludo nwyddau a logisteg wedi wynebu heriau sylweddol yn ystod argyfwng COVID19, ond mae rhai rannau o'r system, megis cludiant milltir olaf a chludiant cyflym, hefyd wedi gweld twf yn cyflymu. Yn ogystal, mae effeithiau perthnasau masnachu ar ôl gadael yr UE ar gadwyni cyflenwi ledled y DU, a mentrau eraill sy'n cynnwys y DU gyfan, yn awgrymu y gallai'r amodau y mae system cludo nwyddau a logisteg yn gweithredu danynt fod yn ansefydlog am gryn amser.

Yn y cyd-destun hwn mae Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn rhoi'r cyfle delfrydol i feddwl am y polisiau sy'n galluogi neu'n rheoleiddio cludo nwyddau a logisteg yng Nghymru – gan sicrhau ein bod yn gallu gwireddu ein huchelgais yn yr amgylchedd newydd a dynamig hwn. Rydym hefyd yn cydnabod bod cyfyngiadau sylweddol ar yr hyn y gellir ei gyflawni'n unochrog. Bydd cydweithio o fewn Llywodraeth y DU ac â'r gwledydd datganoledig eraill yn rhan hanfodol o ddull effeithiol ar gyfer datgarboneiddio cludo nwyddau a logisteg.

Dyma pam rydym wedi sefydlu gweithgor ar gludo nwyddau a logisteg, sy'n cynnwys amrediad o arweinwyr o sectorau moddol a thraws-foddol. Bydd y grŵp yn darparu dealltwriaeth o'r diwydiant, cyngor ac yn craffu ar gynlluniau sy'n gysylltiedig â Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Un o amcanion craidd y gwaith hwn fydd ystyried sut i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatgarboneiddio'r system cludo nwyddau a logisteg fel ffordd integredig ar gyfer datgarboneiddio pob math o drafnidiaeth.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol uniongyrchol.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei strategaeth ar gyfer cludo nwyddau yn ystyried y canlynol: a) prosiectau peilot gyda'r nod o greu rhwydweithiau dosbarthu carbon isel sy'n ddiogel at y dyfodol; b) sut i ganfod a dylanwadu ar y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i leihau allyriadau wrth gludo nwyddau ar draws ffiniau; ac c) sut y bydd yn ceisio dylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr ac e-fasnach

**Ymateb:** Derbyn

Mae'r ffordd o ymdrin â chludo nwyddau a logisteg yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru wrthi'n cael ei datblygu, a bydd yn destun proses ymgynghori ag ymgysylltu drwyadl. Er y byddai'n rhy gynnar dweud ar hyn o bryd pa weithgareddau yn y dyfodol a fyddai'n deillio o'r broses angenrheidiol hon, mae'r mesurau lefel uchel yn yr argymhelliad hwn yn cyd-fynd yn agos â'r syniadau cynnar a gasglwyd oddi wrth y diwydiant.

Felly, byddwn yn ystyried y materion hyn yn ofalus wrth i'r strategaeth ddatblygu.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol uniongyrchol.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i Trafnidiaeth Cymru ddarparu mwy o fanylion am sut y mae'r nodau a'r cerrig milltir a geir yn ei Gynllun Datblygu Cynaliadwy a'i Strategaeth Effaith Carbon Isel yn cael eu monitro a pha mor aml y bydd yn cyhoeddi adroddiadau cynnydd

**Ymateb:** Derbyn

Byddwn yn rhoi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor ynglŷn â'r strategaeth fonitro ac amlder cyhoeddi adroddiadau yn hwyrach yn y flwyddyn.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol uniongyrchol.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru ddangos sut y mae Maes Awyr Caerdydd yn rhan o'i chynlluniau ar gyfer creu rhwydwaith trafndiaeth carbon isel, sut y bydd yn cael ei gynnwys yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r fersiwn nesaf o'r Cynllun Cyflenwi Carbon Isel, a beth yw ei disgwyliadau ar gyfer datgarboneiddio'r maes awyr yn y tymor byr a'r tymor hir (gan gynnwys unrhyw dargedau)

**Ymateb:** Derbyn

Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y ffordd mae ein huchelgais i leihau ôl troed carbon trafndiaeth yn cyd-fynd â'n huchelgais i gefnogi Maes Awyr Caerdydd i fod yn maes awyr rhyngwladol ffyniannus a hunangynhaliol yn hwyrach yn y flwyddyn.

Hoffem ofyn i'r Pwyllgor nodi bod y diwydiant hedfan yn wynebu heriau digynsail oherwydd COVID-19. O ganlyniad, mae prosiectau seilwaith cyfalaf Maes Awyr Caerdydd (gan gynnwys ei Lwybr Hedfan Amgylcheddol) wedi cael eu hatal wrth i swyddogion Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda thîm rheoli'r maes awyr ar strategaeth adfer ac ailgodi.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol y tu hwnt i'r hyd a fydd yn cael ei ariannu gan gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad awdurdodol arall o'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Faes Awyr Caerdydd ynghylch buddion cymharol hedfan o'i gymharu â'r rheilffyrdd ar gyfer teithiau domestig, ac egluro sut y mae hyn yn cyd-fynd â'i chynlluniau i gefnogi a hyrwyddo trafndiaeth carbon isel.

**Ymateb:** Derbyn

Yn ystod y misoedd nesaf bydd swyddogion Trafnidiaeth Cymru yn gweithio'n agos gyda thîm rheoli'r maes awyr i adfer ac ailgodi model busnes Maes Awyr Caerdydd yn dilyn effeithiau COVID-19. Mae cynllun busnes y maes awyr yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

Goblygiadau ariannol: Goblygiadau ariannol ychwanegol y tu hwnt i'r hyd a fydd yn cael ei ariannu gan gyllidebau presennol.